## Os rwy'n amau fod trosedd yn cael ei gyflawni, beth ddylwn i wneud?

Os ydych yn tybio fod trosedd yn cael ei gyflawni, neu ar fin cael ei gyflawni, neu os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch rhywun amheus neu gerbyd amheus, ffoniwch **999** bob amser i gael ymateb ar unwaith gan yr heddlu.

Gwell diogel nac edifar.



**OS YDYCH MEWN UNRHYW AMHEUAETH FFONIWCH**

# 999

# Ymunwch â chynllun Gwarchod Morol

Gwarchod Morol • Marine Watch

## Pwllheli

Os ydych yn aelod o'r gymuned forol ym Mhwllheli dyma'r amser i ymuno.

Mae'n rhad ac am ddim.

**Am fwy o wybodaeth:**


E-bost:
Paul.Duggan@nthwales.pnn.police.uk

PAN FYDD YN LLAI PWYSIG NA 999
101
WHEN IT'S LESS URGENT THAN 999

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Wales/Cymru
CRIMESTOPPERS
0800 555 111
Call anonymously with information about crime
Ffoniwch yn ddienw os am roi gwybodaeth am drosedd

60708 Dyluniwyd ac Argraffwyd gan Heddlu Gogledd Cymru.



HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru **diogelach**
NORTH WALES POLICE
A **safer** North Wales

**HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

# Gwarchod Morol Gwynedd

Heddlu Gogledd Cymru a'r gymuned forol yn gweithio gyda'i gilydd i leihau troseddau morol.

# CROESO I'R CYNLLUN GWARCHOD MOROL

**Bwriad Gwarchod Morol Pwllheli yw:**

- Annog defnyddwyr y môr i helpu eu hunain a'r heddlu i atal a datgelu trosedd;
- Creu ymdeimlad o gymuned trwy gydweithredu a chyfathrebu, fel y gall pawb gyfrannu tuag at warchod eu heiddo eu hunain ac eiddo pobl eraill;
- Darparu cyswllt effeithiol rhwng yr heddlu ac aelodau'r cynllun fel bod gwybodaeth am rywun yn ymddwyn yn amheus yn cael ei chylchredeg yn sydyn;
- Gwneud pawb yn ymwybodol o'r problemau gyda throsedd lleol ac i wneud pawb yn fwy ymwybodol o ddiogelwch eu cwch/offer.

Fel aelod o Gwarchod Morol byddwch yn cyfrannu tuag at well ymwybyddiaeth o drosedd lleol.

**Pwy sy'n cael ymuno?**

Unrhyw un - nid oes raid i chi fod yn berchen ar gwch neu jetsgi. Gallwch fod yn rhywun sy'n mwynhau cerdded y glannau neu rywun sy'n gweithio yn ymyl afon neu'r môr.

**Oes 'na gyfyngiad oedran?**

Na - gall pobl o unrhyw oedran ymuno â'r cynllun a helpu'r heddlu i frwydro yn erbyn troseddau sy'n gysylltiedig â'r môr.

**Faint mae o'n gostio?**

Dim byd - mae cofrestru'n rhad ac am ddim.

**Sut allai gofrestru?**

Gallwch gofrestru trwy lenwi'r ffurflen sydd ynghlwm a'i dychwelyd i'r cydlynydd Gwarchod Morol. Gallwch hefyd ebostio eich manylion i Gwarchod Morol.

**Oes rhaid i mi fod yn byw yn Pwllheli?**

Na - hyd yn oed os ydych ond yn ymweld â'r ardal ar y penwythnos gallai'r wybodaeth rydych yn ei rhoi i'r heddlu fod yn hollbwysig.

**BETH SYDD RAID I MI GADW LLYGAID ALLAN AMDANO?**

**Ymddygiad Amheus**

Os ydych yn gweld neu'n clywed rhywbeth amheus neu os ydych yn tybio fod trosedd yn cael ei gyflawni neu wedi cael ei gyflawni'n ddiweddar iawn, bydd y wybodaeth ganlynol yn werthfawr i'r heddlu.

**Pobl Amheus**

Gwryw/benyw, lliw croen/gwedd, taldra, corffolaeth, oed, gwallt (lliw, hyd, steil ayyb), llygaid (lliw), sbectol, wyneb, marciau (creithiau, tatŵs ayyb), disgrifiad o'u dillad, unrhyw nodweddion gwanhaniaethol arall, i ba gyfeiriad yr aeth yr unigolyn dan sylw.

**Cerbydau/Cychod/Jetsgis Amheus**

Math o gerbyd/cwch/jetsgi, gwneuthuriad/rhif cofrestru'r model, math o ffrâm, unrhyw fanylion eraill (difrod, enw cwmni ayyb), cyfeiriad teithio.

**Os oes gennych wybodaeth rhowch wybod i Gwarchod Morol cyn gynted â phosibl**